CANOL TREF WRECSAM

CYNLLUN ASESU A RHEOLI NODWEDDION ARDAL GADWRAETH

CYNNWYS

1.0 CYFLWYNIAD 3

2.0 HANES A DATBLYGIAD 8

3.0 ASESIAD CYMERIAD 12

4.0 DATGANIAD ARWYDDOCÂD 23

5.0 CYNLLUN RHEOLI 25

ATODIAD 1: CANLLAWIAU DYLUNIO 34

ATODIAD 2: CYNNAL A CHADW 36

ATODIAD 3: RHEOLYDDION ARDAL GADWRAETH 37

ATODIAD 4: ADEILADAU RHESTREDIG 39

ATODIAD 6: CYFEIRIADAU 43

Ffigwr 1 Ardal Gadwraeth Canol Tref Wrecsam..... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigwr 2 Map Hanesyddol Canol Tref Wrecsam – 1899 ..... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigwr 3 Canol Tref Wrecsam – Ardaloedd â Chymeriad..... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigwr 4 Canol Tref Wrecsam – Wrecsam yr Oesoedd Canol ..... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigwr 5 Canol Tref Wrecsam – Y Craidd Manwerthu..... 16

Ffigwr 6 Canol Tref Wrecsam – Y Marchnadoedd ..... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigwr 7 Canol Tref Wrecsam – Stryt Caer a Stryt Yorke ..... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigwr 8 Canol Tref Wrecsam – Stryt Siarl ..... **Error! Bookmark not defined.**

CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae Adran 69 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol nodi "ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, y mae'n ddymunol cadw neu wella eu cymeriad neu eu hymddangosiad" i'w dyrannu fel ardaloedd cadwraeth. Yn ogystal, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol lunio cynigion a pholisïau ar gyfer eu cadw a'u gwella.

Cafodd Ardal Gadwraeth Canol Tref Wrecsam ei dynodi am y tro cyntaf ym mis Mawrth 1974 ac yna cafodd ei ymestyn yn Awst 1975, Mehefin 1985 ac yn fwyaf diweddar ym mis Ebrill 2007. Cafodd Asesiad a Chynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Canol Tref Wrecsam eu mabwysiadu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam fel canllaw cynllunio atodol ym mis Ionawr 2009. Mae'r ddogfen hon bellach wedi cael ei hadolygu a'i diwygio i gymryd i ystyriaeth newidiadau mewn polisi cenedlaethol a lleol, mentrau newydd ac amgylchiadau cyfnewidiol yng nghanol y dref.

Mae'r Cynllun Asesu a Rheoli Nodweddion yr Ardal Gadwraeth yn anelu at ddarparu canllawiau clir i'r rheiny sy'n ceisio ymgymryd â gwaith datblygu a newid yn yr Ardal Gadwraeth ac mae'n darparu fframwaith i wneuthurwyr penderfyniadau i sicrhau bod cymeriad arbennig ac ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth yn cael eu cadw a'u gwella trwy'r gwaith hwn.

Mae Ardal Gadwraeth Canol Tref Wrecsam yn ymgorffori tref farchnad hanesyddol sydd â chymeriad wedi'i ddylanwadu gan bensaernïaeth o gyfnodau Sioraidd a Fictoraidd y 18fed a'r 19eg ganrif yn bennaf. Eglwys Plwyf San Silyn yw prif adeiledd Canoloesol a chanolbwynt datblygu'r dref. Mae mwyafrif yr adeiladau yn rhai dau neu dri llawr o uchder sy'n rhoi graddfa ddynol a chymeriad trefol clos i'r dref.

Mae'r ddogfen yn cynnwys hanes cryno'r dref a'i datblygiad. Mae asesiad cymeriad yn diffinio cymeriad arbennig ac ymddangosiad yr ardal fel tref farchnad hanesyddol sydd â chymeriad wedi'i ddylanwadu gan bensaernïaeth o gyfnodau Sioraidd a Fictoraidd y 18fed a'r 19eg ganrif yn bennaf Mae'r cynllun rheoli ym Mhennod 5.0 yn ceisio amlygu'r ffactorau sy'n lleihau cymeriad arbennig ac ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth ac mae'n anelu at nodi'r cyfleoedd ar gyfer gwella a datblygu cymeriad ac ymddangosiad yr ardal yn well o fewn cynllun gweithredu 10 mlynedd. Darperir canllawiau dylunio manwl ar gynnal a chadw hefyd i gynorthwyo'r sawl â chyfrifoldeb ar gyfer darparu newid a gwneud penderfyniadau hysbys fydd yn diogelu arwyddocâd arbennig yr Ardal Gadwraeth.

1.0 CYFLWYNIAD

Dynodiad Ardal Gadwraeth

Mae Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol nodi "ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, y mae'n ddymunol cadw neu wella eu cymeriad neu eu hymddangosiad" fel ardaloedd cadwraeth. Yn ogystal, mae'n rhaid i Awdurdodau Cynllunio o dro i dro ffurfio a chyhoeddi cynigion ar gyfer cadwraeth a datblygu ardaloedd cadwraeth mewn cynllun rheoli. Dylai hyn ddigwydd bob 5-10 mlynedd yn unol ag arfer orau.

Pwrpas

1.2 Mae'r Cynllun Asesu a Rheoli Nodweddion yr Ardal Gadwraeth yn anelu at ddarparu canllawiau clir i'r rheiny sy'n ceisio ymgymryd â gwaith datblygu a newid yn yr Ardal Gadwraeth ac mae'n darparu fframwaith i wneuthurwyr penderfyniadau i sicrhau bod cymeriad ac ymddangosiad arbennig yr Ardal Gadwraeth yn cael eu cadw a'u gwella trwy'r gwaith hwn. Yn fwy arbennig, pwrpas y Cynllun Asesu a Rheoli Nodweddion Ardal Gadwraeth yw:

- Darparu diffiniad clir o gymeriad arbennig ac ymddangosiad ardal;
- Nodi ffyrdd ar gyfer cadw a gwella eu nodweddion unigryw drwy nodi cyfleoedd a blaenoriaethau ar gyfer gweithredu ac arweiniad manwl;
- Cryfhau'r cyfiawnhad dros y dynodiad
- Creu cyd-destun clir ar gyfer datblygu i'r dyfodol yn unol â'r polisïau ardal gadwraeth yn y Cynllun Datblygu Lleol
- Darparu cyfrwng ar gyfer ymgysylltu a chodi ymwybyddiaeth

Ardal Gadwraeth Canol Tref Wrecsam

1.3 Cafodd Ardal Gadwraeth Canol Tref Wrecsam ei dynodi am y tro cyntaf ym mis Mawrth 1974 ac o ganlyniad cafodd ei ymestyn yn Awst 1975, Mehefin 1985 ac yn fwy diweddar yn Ebrill 2007.

Lleoliad

1.3.1 Tref Wrecsam yw prif setliad y Fwrdeistref Sirol ac mae'n cefnogi cymunedau drwy gydol y Fwrdeistref Sirol. Mae'r dref hefyd yn perfformio rôl is-ranbarthol fel y ganolfan fwyaf yng Ngogledd Ddwyrain Cymru. Mae gan y fwrdeistref sirol ffiniau gyda Sir y Fflint a Sir Ddinbych i'r gogledd orllewin, Powys a Swydd Amwythig i'r de, Gorllewin Swydd Gaer a Swydd Gaer i'r dwyrain a ffin genedlaethol gyda Lloegr Mae gan y Fwrdeistref Sirol boblogaeth o tua 134,844. Mae Ardal Gadwraeth Canol Tref Wrecsam yn cynnwys prif strydoedd hanesyddol a masnachol Canol y Dref.

Daeareg

1.3.2 Mae Wrecsam yn gorwedd yn bennaf o amgylch yr amlinell 80 metr, ac mae'r ddaeareg sylfaenol yn gymysgedd cyfoethog o dywodfaen, calchfaen a chystradau glo carbonifferaidd sy'n achosi deunydd adeilad lleol amlwg ac amrywiol dreflun.

Cynllun Asesu a Rheoli Nodweddion Ardal Gadwraeth Wrecsam

1.3.3 Cafodd Cynllun Asesu a Rheoli Ardal Gadwraeth Canol Tref Wrecsam ei fabwysiadu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam fel canllaw cynllunio atodol yn Ionawr 2009.

1.3.4 Mae'r ddogfen hon bellach wedi'i hadolygu i gymryd i ystyriaeth y newidiadau mewn polisi lleol a chenedlaethol, mentrau newydd ac amgylchiadau newidiol o fewn canol y dref.

1.3.5 Mae Cynllun Asesu a Rheoli Nodweddion yr Ardal Gadwraeth hon yn anelu i hybu a chefnogi datblygiadau sy'n unol neu'n gwella cymeriad Ardal Gadwraeth Canol Tref Wrecsam. Nid yw'n ymdrech i rwystro newid. Y nod yw taro cydbwysedd er mwyn rhoi'r pwys priodol ar fuddiannau cadwraeth ochr yn ochr â'r angen am newid a datblygu.

1.3.6 Byrdwn y ddogfen hon yw nodi'r rhesymau dros y dynodiad a diffinio'r rhinweddau sy'n cyfrannu at y diddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig ac at gymeriad ac ymddangosiad. Ni ddylai hepgoriadau unrhyw adeilad, nodwedd neu ofod gael ei ystyried i awgrymu nad yw o unrhyw ddiddordeb.

Cyd-destun Strategol

1.4 Dylid ystyried y ddogfen hon o ran y cyd-destun cynllunio presennol a'i darparu gyda mentrau eraill sy'n effeithio ar Ganol Tref Wrecsam fel a ganlyn:

Deddfwriaeth Genedlaethol

1.4.1 Dylai'r ddogfen gael ei hystyried o ran canllawiau polisi cynllunio cenedlaethol, *Polisi Cynllunio Cymru Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol (2016), Nodyn Cyngor Technegol 24 Polisi Cynllunio Cymru*: Yr *Amgylchedd Hanesyddol* (2017) a Rheoli Newid mewn Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru (Cadw, 2017). Mae'r ddogfen hefyd yn unol â Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) sy'n ceisio gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yng Nghymru. Mae cyflwr yr amgylchedd hanesyddol yn un o'r dangosyddion a ddefnyddir i helpu i fesur cynnydd tuag at gyflawni amcanion lles a sefydlwyd o dan y Ddeddf.

Cynllun Datblygu Lleol 2013-2028

1.4.2 Dylid darllen y ddogfen hon gyda Chynllun Datblygu Unedol Wrecsam 2005 a'r Cynllun Datblygu Lleol 2013-2028 newydd, yn arbennig Polisi SP16: Amgylchedd Hanesyddol a Diwylliannol, Polisi SP8: Tref Wrecsam a Pholisi R2: Datblygu o fewn ardal Uwchgynllun Canol Tref Wrecsam. Nod Strategol y Cynllun Datblygu Lleol newydd yw 'Adfywio Tref Wrecsam fel cyrchfan aml-swyddogaethol i gynnwys manwerthu, addysg, dinesig, amwynder, cyflogaeth, hamdden a defnydd preswyl.' Cyflawnir y nod hwn yn rhannol drwy wella bywiogrwydd, atyniad a hyfywedd Canol y Dref fel prif gyrchfan ar gyfer byw, ymweld a siopa yno. Cefnogir hyn gan Uwchgynllun Canol Tref Wrecsam a fabwysiadwyd. Mae'r ddogfen hon hefyd yn cefnogi themâu lles strategol Cynllun y Cyngor 2017-2022 yn arbennig cefnogi amgylchedd cynaliadwy a bio-amrywiol.

Uwchgynllun Canol Tref Wrecsam Ebrill 2016

1.4.3 Mae'r uwchgynllun yn nodi gweledigaeth, amcanion a chamau gweithredu clir ar gyfer yr ardal fel tref ddeniadol, unigryw a hygyrch yn yr 21ain ganrif y mae pobl yn dymuno byw, dysgu, gweithio, ymweld a buddsoddi ynddi. Mae'n ceisio hwyluso darparu safleoedd canol tref allweddol gyda fframwaith datblygu; datblygu amgylchedd deniadol ac unigryw gydag adeiladau a pharth cyhoeddus o ansawdd uchel i helpu i greu ymdeimlad bywiog o hunaniaeth sy'n caniatáu gwell profiadau i siopwyr ac ymwelwyr; gwella hygyrchedd i gerddwyr i helpu i gysylltu canol y dref sy'n dameidiog; gwella ystod, cymysgedd ac ansawdd yr atyniadau i ymwelwyr a siopwyr, gan gynnwys gwell cynnig hamdden, yn enwedig yn yr economi fwytai a chyda'r nos; a gwneud canol y dref yn lle deniadol i fyw ynddo. Mae'r

Uwchgynllun yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio yng nghanol y dref ac yn ardal ehangach yr Uwchgynllun.

Astudiaeth Parth Cyhoeddus Canol Tref Wrecsam (AECOM, 2015)

1.4.4 Mae'r astudiaeth hon yn darparu asesiad a dadansoddiad o'r parth cyhoeddus ar hyn o bryd, strategaeth parth cyhoeddus a chynllun cysyniad, opsiynau dylunio dangosol a phalet deunyddiau ar gyfer parth cyhoeddus yng nghanol y dref yn y dyfodol. Mae angen i gynigion ar gyfer canol y dref adlewyrchu'r Cynllun Cysyniad Parth Cyhoeddus, cefnogir yr egwyddorion cyffredinol gan yr Uwchgynllun.

Cynllun Treftadaeth Treflun Canol Tref Wrecsam Cam 1

1.4.5 Sicrhawyd cyllid o Gronfa Dreftadaeth y Loteri o dan y Cynllun Grant Treftadaeth Treflun. Bydd y grant datblygu yn galluogi i gais am arian cam II gael ei ddatblygu i'w gyflwyno i Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Bydd y prosiect hefyd yn darparu cyfleoedd ar gyfer addysg a hyfforddiant mewn Sgiliau Adeiladu Traddodiadol.

Strategaeth Adeiladau mewn Perygl 2012-2016 (yn cael ei adolygu)

1.4.6 Cafodd y Strategaeth Adeiladau mewn Perygl ei mabwysiadu yn Rhagfyr 2011 gyda'r nod o ddiogelu asedau hanesyddol y Fwrdeistref Sirol o effeithiau esgeulustod a dirywiad. O fewn canol y dref, mae rhai adeiladau rhestredig gan gynnwys The Old Swan, y Cambrian Vaults a chyn dafarn wedi eu tynnu oddi ar y gofresr trwy waith ailwampio ac atgyweirio i allu gwneud defnydd buddiol ohonynt a gwneud cyfraniad cadarnhaol unwaith eto i gymeriad a bywiogrwydd canol y dref.

Strategaeth Coed a Choetir Wrecsam 2016-2026

Mae'r strategaeth hon yn ceisio sicrhau bod Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn 'lle gwyrddach' drwy gael poblogaeth coed cynaliadwy, gwarchodedig, iach ac amrywiol gyda digon o frigdwf i hybu mwy o 'wytnwch hinsawdd' a gwella iechyd a lles pawb sy'n byw, gweithio ac yn ymweld â'r ardal. Roedd astudiaeth o frigdwf coed trefol a gynhaliwyd yn 2009 yn dangos bod gan Dref Wrecsam frigdwf coed trefol is na'r cyfartaledd cenedlaethol (16.8%). Mae'r strategaeth yn anelu i gynyddu brigdwf coed trefol, ledled y Fwrdeistref Sirol i dros 20% erbyn 2026.

Cynllun Rheoli Cyrchfan Bwrdeistref Sirol Wrecsam 2018-2020

1.4.7 Mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfan yn cydnabod bod Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cyflwyno cyfleoedd ar gyfer datblygiad pellach fel cyrchfan twristiaeth ac mae'r economi ymwelwyr angen datblygu'n gyfochrog ag adfywio ehangach canol y dref. Mae blaenoriaethau'n cynnwys datblygu ac arallgyfeirio'r cynigion economi min nos a manwerthu, mwy o gyfleusterau hamdden a gwell digwyddiadau ac animeiddiad o'r dref ynghyd â'r angen ar gyfer datblygu mwy o lety.

Strategaeth Treftadaeth Wrecsam 2018-2028: Creu Cysylltiadau

1.4.8 Mae gan y strategaeth weledigaeth i alluogi potensial llawn ein treftadaeth i ffynnu, fel y gall wneud y cyfraniad mwyaf posibl a chyfoethogi pob agwedd o fywyd yn y Fwrdeistref Sirol, er budd y preswylwyr lleol ac ymwelwyr fel ei gilydd. Daw'r weledigaeth drwy gadw, dehongli a hybu prif asedau treftadaeth yr ardal.

*Strategaeth Tai Lleol Wrecsam 2018 - **2023***

1.4.9 Gweledigaeth y Cyngor ar gyfer y strategaeth tai lleol hon yw;

"Darparu'r cartrefi cywir i'r bobl gywir mewn cymunedau diogel a deniadol."

Er mwyn helpu i gyflawni'r weledigaeth hon, mae'r Cyngor yn ceisio creu tai cynaliadwy o safon dda yng nghanol y dref a fydd, yn ei dro, yn cynhyrchu cyflogaeth, cyfleoedd hyfforddi a gwell cyfleusterau hamdden. I gefnogi hyn, bydd y Cyngor yn gwneud gwaith gwella i isadeiledd a chyfleusterau presennol, megis siopau ac adeiladau segur. Bydd y gwaith adfywio hwn yn cael ei wneud mewn ffordd sy'n cyflenwi a gwella treftadaeth leol ac adeiladau traddodiadol yn yr ardal gyfagos.

Ymgynghori

1.5 Cynhaliwyd arolwg cyhoeddus yn ystod Medi 2018 sydd wedi helpu i ddatblygu'r ddogfen hon. Cynhaliwyd cyfnod ymgynghori cyhoeddus pellach yn ystod Tachwedd a Rhagfyr 2018.

Ffigwr 1 Ardal Gadwraeth Canol Tref Wrecsam

2.0 HANES A DATBLYGIAD

Datblygiad Cynnar

2.1 Ni sonir am Wrecsam yn arolwg Dydd y Farn 1086 gan ei bod yn debygol nad oedd yr ardal wedi'i dominyddu a'i rheoli gan y Normaniaid eto. Roedd tywysogion Powys wedi gorchfygu'r ardal ar ddechrau'r 12 ganrif ac roedd y sefydlogrwydd cymharol a grewyd wedi caniatau i Wrecsam ddatblygu fel tref fasnachu. Roedd Wrecsam wedi ffynnu fel tref farchnad yn ystod y 14eg a'r 15fed ganrif. Roedd y dref yn masnachu yn llawer pellach hefyd ac erbyn 1391 roedd bron hanner y preswylwyr yn fewnfudwyr economaidd wedi eu denu gan y diwydiannau gwlân a lledr ffyniannus.

17eg – 18fed Ganrif

2.2 Erbyn hyn roedd marchnadoedd a ffeiriau Wrecsam yn gwneud y dref yn ganolog i economi Gogledd Cymru. Roedd gwragedd ffermwyr yn gwerthu eu dofednod, wyau, menyn a llysiau ar Stryt yr Hôb, roedd cigyddion yn gwerthu yn Stryt yr Abad, a chrefftwyr yn gwerthu eu cynnyrch ar y Stryd Fawr. Daeth Wrecsam yn dref marchnad ranbarthol pwysig yn denu masnachwyr teithiol a ffeiriau o ardaloedd mor bell â Swydd Efrog, Manceinion a Birmingham.

2.3 Cafodd marchnadoedd a adeiladwyd yn bwrpasol eu hadeiladu ar ddiwedd y 18fed ganrif: Neuadd Jones ar Stryt y Syfwr ar gyfer lliain a nwyddau ffansi, Sgwâr Swydd Efrog oddi ar Stryt y Twtil ar gyfer y deilwyr brethyn, Sgwâr Manceinion (sydd bellach yn safle'r Farchnad Gyffredinol) a deilwyr nwyddau haearn ar Sgwâr Birmingham, sydd yn lle'r Farchnad Llysiau (bellach wedi'i ddymchwel) yn rhannol ar Stryt Henblas. Roedd y Farchnad Anifeiliaid ar ddiwedd Stryt Siarl yn denu ffermwyr ar draws y ffin, a dwy dafarn ar Stryd y Bont a Phen y Bryn a alwyd yn Horns Inn a'r Jolly Drovers yn diwallu anghenion y porthmyn gwartheg. O fewn y dref roedd yna lawer o weithdai'n ffynnu ar gyfer gofaint, seiri, platwyr tun, blingwyr, barceriaid, cwrwyr a gwerthwyr lledr lle roeddent yn agos at eu cyflenwyr a marchnadoedd. Ar ddiwedd y 18fed ganrif agorodd bragdy masnachol cyntaf y dref, Bragdy Thomas ar Gamfa'r Cŵn.

2.4 Rhwng 1792-4, roedd yr artist enwog Joseph Mallord William Turner (1775-1851) wedi tynnu llun a phaentio rhai golygfeydd o fewn y dref. Mae'r ddau ddarn o waith yn rhan o gasgliad gan yr Amgueddfa Fictoraidd ac Albert.

19fed Ganrif

2.5 Erbyn 1833 roedd y boblogaeth wedi tyfu i 5,500 ac erbyn 1900 roedd yn ganolfan fasnachol gwell gyda dros 15,000 o bobl. Ym mis Medi 1857, cafodd siarter corfforiad ei warantu a daeth Wrecsam yn Fwrdeistref am y tro cyntaf ac roedd yna gorff canolog yn gyfrifol am fynd i'r afael â thlodi, glanweithdra difrifol, trosedd a strydoedd budr yn y dref. Roedd Wrecsam wedi'i gysylltu'n dda gyda choetsys post dyddiol i Lundain a'r bws gwennol dyddiol o'r Amwythig i Gaer. Roedd coets fawr yn mynd o Dafarn y Feathers ac yn ddiweddarach o'r Wynnstay Arms. Roedd cyrhaeddiad y rheilffordd rhwng yr Amwythig a Chaer yn y 1840au yn golygu nad oedd Wrecsam yn dibynnu ar ffyrdd tollau tyrpeg ac yn cyhoeddi dechrau ehangiad pellach i'r dref. Roedd llinell rheilffordd Wrecsam, Yr Wyddgrug a Chei Connah yn anelu tua'r gogledd o 1866 ac agorodd llinell Wrecsam i Ellesmere i fyny i'r de yn 1895. Agorodd siopau a busnesau newydd ar gyfer y cyfoethog a'r

sawl oedd wedi dod o hyd i waith sefydlog drwy'r diwydiant lleol ac roedd y marchnadoedd ar eu newydd wedd drwy Farchnad y Cigyddion a adeiladwyd yn bwrpasol (adeiladwyd yn 1848), Marchnad y Cigyddion (adeiladwyd yn 1879) a'r Farchnad Llysiau (adeiladwyd yn 1910 a 1927). Dechreuodd diwydiannau gweithdy traddodiadol Wrecsam yn y 18fed ganrif ar gyfer bragu, blingo, barcio a gof yn ehangu'n gyflym yn ystod y 19eg ganrif.

2.6 Roedd diwydiannaeth yn cynyddu cynhyrchiant yn y 19eg ganrif ac yn cyflwyno newidiadau mewn arferion gwaith, oedd yn galw am adeiladau mwy i ddarparu mwy o olau a gofod mewnol. Roedd yn gyfnod o fwy o gyfoeth a hyder pan oedd ailddatblygu llwyr yn cael ei ffafrio yn hytrach nag addasu a chafodd llawer o adeiladau ffrâm pren y dref eu newid neu ffrynt newydd i gynnwys y ffasiwn pensaernïol newydd mewn deunydd fel tywodfaen neu frics.

2.7 Roedd y diwydiant bragu yn dominyddu yn y dref yn ystod y 19eg ganrif. Erbyn y 1860au roedd yna 19 bragdy lleol, y cyfan yn defnyddio cyflenwadau helaeth o ddŵr, o ffynonellau tanddaearol a'r Afon Gwenfro lle'r oedd y bragdai wedi eu lleoli. Y bragdy mwyaf enwog oedd Wrexham Lager, oedd yn arfer bod ar safle'r Parc Manwerthu Canolog ar Ffordd Ganol.

20fed Ganrif

2.8 Roedd bragu'n parhau'n un o brif ddiwydiannau Wrecsam yn yr ugeinfed ganrif yn cynnwys sawl bragdy mawr ynghyd â rhai llai wedi eu lleoli yng nghefn tafarndai lleol. Roedd rhai o'r bragdai mwyaf enwog yn cynnwys yr Albion, Cambrian, Eagle, Y Werddon, Soames a'r Willow. Roedd Bragdy Soames a sawl un o'r bragdai llai wedi uno yn 1931 i ffurfio Border Breweries. Roedd chwaeth newidiol ac ad-drefnu yn arwain at gau Border Breweries yn 1984 a Bragdy Wrexham Lager yn 2000. Oherwydd gorffennol diwydiannol y dref roedd yna rwydwaith mawr a chymhleth o reilffyrdd, y prif un oedd llinell Wrecsam a'r Mwynglawdd, oedd yn cefnogi'r gwaith dur ym Mrymbo a Gwaith Calch y Mwynglawdd. Cafodd y rhwydwaith o linellau cangen rheilffordd ei ddymchwel yn y 1960au a'r 70au pan ddechreuodd cyfnod o ddirwasgiad economaidd yn Wrecsam. Yn yr 80au a'r 90au roedd partneriaeth o awdurdodau lleol ac Awdurdod Datblygu Cymru yn ymyrryd i wella'r sefyllfa yn Wrecsam. Yn ogystal â mwy o arian ar gyfer blaen siopau drwy Grantiau Gwella Tref a ffatrïoedd drwy Grantiau Gwella Amgylcheddol, gan roi hwb i ragolygon cyflogaeth yr ardal, ariannwyd ffordd ddeuol yr A483 ac felly'n darparu gwell cysylltiadau i Gaer, Amwythig a dinasoedd Lerpwl, Manceinion a Birmingham.

21ain Ganrif

2.9 Mae cysylltiadau rheilffyrdd i Gaerdydd wedi gwella ers dechrau'r 21ain Ganrif. Mae buddsoddiad sylweddol wedi arwain at nifer o ddatblygiadau manwerthu a defnydd cymysg sylweddol o fewn ac o amgylch canol y dref yn arbennig datblygiad Dôl yr Eryrod. Er bod canol tref Wrecsam, fel canol nifer o drefi eraill yn y DU, wedi wynebu dirywiad dros y 10 mlynedd ddiwethaf, mae gan ganol y dref gymuned fusnes sy'n ffynnu ac sy'n cymryd camau mewn partneriaeth gyda'r awdurdod lleol i adfywio'r dref farchnad hon a fu unwaith mor llewyrchus.



Ffigwr 1 Map Hanesyddol Canol Tref Wrecsam – 1899



Ffigwr 2 Canol Tref Wrecsam – Ardaloedd Nodweddion

3.0 ASESIAD CYMERIAD

3.1 Gellir rhannu'r Ardal Gadwraeth yn 5 ardal cymeriad amlwg fel y nodir ar ffigwr 3 a disgrifir isod.

Wrecsam Ganoloesol: Eglwys Plwyf a Rhodfan San Silyn, Rhes y Deml, Stryt yr Eglwys, Camfa'r Cŵn, Allt y Dref, Stryt yr Abad a'r Stryd Fawr

3.2 Eglwys Plwyf San Silyn yw prif adeiledd Canoloesol a chanolbwynt datblygu'r dref. Mae wedi'i leoli'n amlwg uwchlaw yr Afon Gwenfro ac o fewn mynwent eglwys, wedi'i amgáu gan fur terfyn tywodfaen i'r de a rheiliau metel i ochr y gogledd, y dwyrain a'r gorllewin. O fewn y rhodfan mae yna goed aeddfed sy'n ffurfio cefnlen anhygoel i'r eglwys, y Stryd Fawr a Stryt Yorke.

3.3 Mae'r rhodfan a'r strydoedd cul a strydoedd cefn i'r gogledd, y dwyrain a'r gorllewin, Rhes y Deml, The Ney, Arcêd Owrtyn, Stryt yr Eglwys a Chamfa'r Cwn sy'n cysylltu i'r Stryd Fawr, Allt y Dref a Stryt yr Abad wedi cadw cymeriad canoloesol. Mae'r llwybr troed agos a diarffordd sy'n cysylltu i fynwent yr eglwys ac yn cefnu ar yr adeiladau niferus a hen o amrywiol uchder a manylder i Res y Deml a Chamfa'r Cŵn yn creu synnwyr o leoliad trawiadol.

3.4 O'r groesffordd ar ochr orllewinol y Stryd Fawr, mae llwybr byr Stryt yr Eglwys wedi cau gan giatiau Mynwent yr Eglwys a thŵr yr eglwys yn dominyddu uwchben a thu hwnt. Mae cymeriad gwych a diddordeb Stryt Yr Eglwys wedi'i greu gan safle ffasâd gorffeniadau hanner pren, gyda gorffeniad wedi'i blastro. Mae graddfa a lled eiddo ar Stryt yr Eglwys yn cyferbynnu gyda ac yn darparu golwg gweledol ardderchog i'r Eglwys.

3.5 Mewn cyferbyniad, mae'r Stryd Fawr yn nodedig am ei heiddo cain, 3 llawr yn bennaf o'r 18fed a'r 19eg ganrif o amrywiol raddfa, lliw a manylder. Mae'r mwyafrif o'r adeiladau sy'n wynebu Allt y Dref a'r Stryd Fawr yn Adeiladau Rhestredig.

3.6 Mae Adeiladau Rhestredig i'w nodi ar y Stryd Fawr i'w cynnwys ar ochr y gogledd, rhifau 10 ac 11 sy'n ffurfio'r fynedfa i adeilad Marchnad y Cigyddion a adeiladwyd yn 1848 o garreg mewn arddull Jacobeaidd. Mae'n cynnwys talcen terfyniad ffurfiedig, ffenestri pediment mwliwn a chroeslathog ac oriel dros fwa'r fynedfa. Rhifau 14-15, a adeiladwyd rhwng 1910 ac 1912 yn defnyddio meini nadd gyda cholofn ithfaen mewn arddull baroc. Ar ochr ddeheuol y stryd mewn lleoliad amlwg ar gornel Stryt yr Eglwys mae Rhif 43 (adeiladwyd yn 1896) cyn Fanc Cynilion Ymddiriedolwyr o flociau carreg nadd tywodfaen coch.

3.7 Mae Allt y Dref yn codi ac yn troi o'r gorllewin i'r Stryd Fawr ac er ei fod yn cynnwys nifer o adeiladau cynnar a rhestredig, mae'r deunydd corfforol, yn arbennig ar ochr ogleddol y stryd angen ei adnewyddu a'i atgyweirio. O Allt y Dref, o'r gyffordd gyda Stryt yr Abad tan y croesffordd gyda Stryt yr Eglwys a Stryt yr Hôb, mae'r stryd yn lledu. Dyma oedd cyn leoliad Neuadd y Dref, a adeiladwyd yn 1713 ond cafodd ei ddymchwel yn 1940 fel rhan o gynllun gwella ffyrdd. Byddai'r Stryt Fawr wedi'i hamgau'n wreiddiol gyda golygfeydd y dwyrain a'r gorllewin wedi eu terfynu gan strwythur Gwesty'r Wynnstay Arms a Neuadd y Dref fel y gwelir ar ffigwr 2.

3.8 Mae'r eiddo ar hyd Allt y Dref a'r Stryd Fawr wedi eu hadeiladu ar leiniau bwrdeisiwr cul hir o bosibl o darddiad canoloesol.

3.9 Roedd fframiau coed, deunydd adeiladu cyffredin y cyfnod canoloesol, yn cynnwys plethwaith a dwb a phaneli rendr calch. Mae sawl adeilad canoloesol wedi goroesi ar Allt y Dref a Stryt yr Eglwys, yn arbennig 5, 7 a 9 Allt y Dref a 7 i 9 Stryt yr Eglwys, y cyfan wedi eu hamddiffyn drwy eu rhestru. Ar ochr ogleddol y Stryd Fawr, mae tafarn The Golden Lion o darddiad yr 16eg ganrif. Mewn mannau eraill, mae gweddillion fframiau coed canoloesol wedi goroesi o fewn strwythurau diweddarach. Mae'r craidd Canoloesol yn parhau'n ardal archeolegol hynod sensitif. Mae yna debygolrwydd cryf y bydd gweddillion adeiladau a dyddodion yn cael eu canfod wrth gloddio tir, cyn belled nad yw hyn wedi'i ddinistrio drwy strwythurau diweddarach.

3.10 Mae'r hen dafarndy Commercial a'r Cambrian Vaults yn ddau adeilad rhestredig o gymeriad gwych yn Camfa'r Cŵn ac yn weddillion y diwydiant bragu a oedd yn dominyddu gymaint ar y rhan hon o'r dref ar ochr yr Afon Gwenfro. Yn wreiddiol roedd llinell rheilffordd Wrecsam i Ellesmere yn rhedeg yn uniongyrchol wrth ymyl y Cambrian o'r Orsaf Ganolog ac yn parhau ar hyd y llwybr lle mae'r maes parcio nawr rhwng Eglwys San Silyn a Rhodfa San Silyn fel y gwelir yn ffigwr 2.

3.11 Mae Stryt yr Abad wedi cadw rhywfaint o gymeriad canoloesol, a oedd yn arfer bod yn y rhan hon o'r dref cyn y difrod a ddaeth gyda'r rheilffordd ac yna dymchwel ac ailddatblygu. Prif agwedd o'r cymeriad yw bod y stryd yn gul gydag adeiladau ar raddfa fechan (dau a thri llawr) a synnwyr amgaeedig. Mae prif adeiladau'n cynnwys y ddau dafarndy rhestredig y Cross Foxes ac The Old Swan. Mae'n debyg bod y Cross Foxes wedi'i adeiladu'n bwrpasol fel tafarndy ar ddiwedd y 18fed ganrif yn disodli tafarn flaenorol a'r cyntaf ar gyfer Bragdy Wrexham Lager yn 1922. Mae tafarndy The Old Swan yn debyg o fod o'r 16eg ganrif.



y/shared/cwdpolicy/graphic/graphic2/cons/wrexhamtc/wrexhamtcamended2018

Ffigwr 4 Canol Tref Wrecsam – Wrecsam Canoloesol

Stryt yr Hôb, Stryt y Rhaglaw a Stryt y Syfwr

3.12 Mae'r strydoedd hyn yn barhad o'r patrwm strydoedd canoloesol yn lledaenu o'r ardal greiddiol o amgylch Eglwys Plwyf San Silyn. Mae'r cyfeiriad cyntaf at Stryt yr Hôb yn 1553. Mae'r strydoedd hyn yn lletach mewn rhai rhannau nag eraill, gan arwain o leoliad y marchnadoedd stryd oedd yn digwydd ledled y dre o'r canol oesoedd hyd at y 19eg ganrif. Mae'r tair stryd hyn yn parhau i ffurfio prif strydoedd manwerthu o fewn canol y dref hanesyddol.

3.13 Mae Gogledd Stryt y Rhaglaw yn rhan bwysig o'r Ardal Gadwraeth, sy'n caniatáu golygfa hir i lawr i gyffordd Stryt yr Hôb a Stryt y Syfwr ardal ganolog yng nghanol y dref yn arwain o gydgyfeiriad o adeiladau allweddol y mwyaf amlwg tafarndy'r Talbot a rhifau 24 i 54 Stryt yr Hôb. Mae yna olygfeydd dwyochrog i fyny Stryt y Rhaglaw gyda meindwr Cadeirlan Gatholig Rufeinig y Santes Fair yn weladwy yn y pellter ynghyd â golygfa braf i fyny Stryt y Syfwr gyda'r Hen Lyfrgell ar y terfyn.

3.14 Mae rhai o'r adeiladau o fewn yr ardal hon yn rhestredig, ond er hynny o ddiddordeb lleol a theilyngdod pensaernïol. Maent yn adeiladau o'r 19eg a'r 20fed ganrif yn bennaf gan gynnwys Rhif 35 Stryt yr Hôb a 2 Stryt Y Rhaglaw a adeiladwyd yn 1875 mewn arddull gothig gyda brics melyn gyda mynedfa fwoaog uchel i Stryt Argyle.

3.15 Mae'r adeiladau rhestredig yn cynnwys Tafarndy'r Horse and Jockey, a adeiladwyd yn wreiddiol mae'n debyg yn yr 16eg ganrif fel tŷ neuadd ac mae wedi cadw'r to gwellt. Roedd adeiladau cyfagos ar Stryt y Priordy wedi eu dinistrio gan dân yn 2004 yn ogystal ag adeilad ar Stryt yr Hôb sydd bellach yn cynnwys adeilad gyda ffrynt gwydr. Mae'r Horse and Jockey wedi parhau yr un fath yn bennaf.

3.16 Mae'r Arcêd Canolog hefyd yn adeilad rhestredig Gradd II sy'n cysylltu Stryt yr Hôb gyda Marchnad y Cigyddion. Cafodd ei adeiladu yn 1891 gyda brics a therracotta, gyda tho gwydrog a ffrynt siopau gwreiddiol. Ar gornel Stryt y Banc mae'r hen Fanc National Westminster, nawr yr Halifax (adeiladwyd yn 1876), o flociau cerrig nadd rwstig mewn arddull Eidalaidd. Mae Tafarndy'r Talbot a adeiladwyd yn 1904 fel tafarndy a siopau mewn lle amlwg ar gyffordd Stryt yr Hôb a Stryt Syfwr ac mae ganddo do coch amlonglog, waliau hanner pren a phaneli terracotta ac mae'n dirnod pwysig o fewn y dref.



Ffigwr 5 Canol Tref Wrecsam – Stryt yr Hop, Stryt y Rhaglaw a Stryt y Syfwr

Y Marchnadoedd: Stryt Henblas a Stryt y Banc

3.17 Mae'r strydoedd hyn yn cyfuno i ffurfio rhan arbennig o Wrecsam, ac maent yn cynnwys cymeriad personol. Yn benodol, mae Stryt y Banc yn cynnwys cymeriad canoloesol, yn gul iawn ac yn cynnwys adeiladau ar raddfa fechan a blaen siopau bach. Mae'r rhan hon o'r dref yn parhau'n draddodiadol yn barth busnesau a siopau sy'n eiddo teuluol neu breifat, sy'n ymestyn i'r stondinau o fewn marchnadoedd Cyffredinol a'r Cigydd.

3.18 Mae'r adeiladau ar raddfa fach ar ochr ddeheuol Sgwâr Henblas, Stryt Henblas a Stryt y Banc o arddull cyn-Fictoraidd 19eg ganrif a'r cyfan sy'n weddill o'r cyfnod hwnnw yn dilyn ailddatblygu yng nghanol i ddiwedd y 19eg a'r 20fed ganrif cynnar. Maent yn gymysgedd o arddull ond yn gyffredinol yn dilyn patrwm adeiladau 2 lawr, blaen cul, ar raddfa ddomestig gyda ffenestri codi i'r lloriau uchaf a blaen siopau traddodiadol islaw. Maent yn gymysgedd o orffeniad brics, brics wedi eu paentio neu eu rendro gyda tho llechi. Roedd yr hen sinema theatr yn agor allan ar Stryt Henblas ac yn cynnwys llawer o'r ardal i gefn y stryd hon. Caeodd yn 1997 ac mae'r safle nawr ar fin cael ei ailddatblygu yn dilyn cyfnod o esgeulustod a thân yn 2008.

3.19 Mae troad Stryt Henblas a rhythm y ffenestri yn creu diddordeb, yn diweddu yn yr ardal gaeedig iawn ar waelod Stryt y Banc lle mae mynedfa addurnedig i Farchnad y Cigydd yn wynebu'r fynedfa gornel crwm i'r Farchnad Gyffredinol gyferbyn. Mae'r ddau adeilad marchnad yn Adeiladau Rhestredig Gradd II.

3.20 O fewn yr ardal hon mae'n amlwg y gwnaed ymdrechion i ailosod blaen siopau traddodiadol ac arwyddion ffasgia wedi eu paentio â llaw wedi eu hadfer yn draddodiadol.

Stryt Caer a Stryt Yorke

3.21 Roedd Stryt Caer a Stryt Yorke unwaith yn brif lwybrau de-gogledd prysur iawn ar ymyl canol y dref. Mae Stryt Yorke yn arbennig wedi cael budd o gynllun palmant, goleuadau a dodrefn stryd o ansawdd uchel, sydd wedi adfer llawer o gymeriad hanesyddol i'r ardal. Roedd Stryt Yorke yn arfer bod yn llawn siopau a thafarndai ar y ddwy ochr gan greu cymeriad fel y gwelir yn ffigwr 2. Cafodd ochr orllewinol y stryd ei dymchwel yn 1967 fel rhan o gynllun lledu ffordd a thirlunio'r ardal.

3.22 Mae sefyllfa Stryt Yorke, Stryd Fawr a Stryt Siarl yn ardal ganolog bwysig lle mae golygfeydd pell gyrhaeddol i'r gogledd, de a'r gorllewin oherwydd bod y strydoedd yn llydan ac yn syth. Mae'r olygfa tua'r gogledd yn ymestyn mor bell â'r adeiladau hanesyddol ar frig Stryt Caer; tua'r de i lawr Stryt Yorke i adeiladau bragdy Border a thafarn y Nags Head ar waelod yr allt; a thua'r gorllewin i lawr i ddiwedd y Stryd Fawr.

3.23 Mae Gwesty'r Wynnstay ar Stryt Yorke yn un o'r adeiladau rhestredig mwyaf amlwg yn y dref, ei ffasâd 18fed ganrif (yr unig ran o'r strwythur hanesyddol wnaeth oroesi) yn cau'r olygfa i lawr y Stryd Fawr ac mae ei bresenoldeb yn domiynyddu Stryt Yorke. Drws nesaf mae tafarn y Feathers, tafarn o'r 18fed ganrif yn wreiddiol ar lwybr dwyrain orllewin pwysig drwy'r dref a stablau a cherbyty yn y cefn. Mae'r Old Vaults ar Stryt Caer yn enghraifft nodweddiadol o dafarn canol y 19eg ganrif sydd wedi cadw llawer o'i gymeriad gwreiddiol. Cafodd y Nags Head ei ailwampio'n sylweddol ar ddiwedd y 19eg ganrif mewn arddull pensaernïaeth cynhenid gothig addurnol yn cau'r olygfa ar droed y mynydd ar Stryt Yorke. Mae'n cynnwys gwerth grŵp gyda simnai Bragdy Border, sy'n sefyll uwchlaw ar Stryt y Twtil.

3.24 Mae'r adeiladau o ddiddordeb pensaerniol lleol yn gymysgedd eclectig bendigedig o arddull y 19eg ganrif yn bennaf o frics a rendrad gyda tho llechi a manylder yn rhoi cymeriad cydlynol a chyflawn.

3.25 Mae ochr orllewinol Stryt Yorke yn cynnwys arglawdd agored gwyrdd, gyda golygfa braf o Eglwys Plwyf San Silyn.



Ffigwr 6 Canol Tref Wrecsam – Y Marchnadoedd



Ffigwr 7 – Canol Tref Wrecsam – Stryt Caer a Stryt Yorke

Stryt Siarl

3.26 Nid yw tarddiad enw'r stryd hon yn hysbys ond roedd yn cael ei hadnabod fel Stryt y Farchnad Anifeiliaid tan ddiwedd y 18fed ganrif, ac yn y Canol Oesoedd cafodd ei hystyried fel estyniad i'r Stryd Fawr. Mae'n cael ei hystyried fel un o'r strydoedd manwerthu mwyaf deniadol yn y dref, llawn o fusnesau bach preifat. Mae yna olygfa treflun o ansawdd i fyny Stryt Siarl lle mae tro y stryd yn atal golygfa lawn, gan greu diddordeb. Mae'r llwybr cerddwyr o'r dwyrain i Stryt Siarl yn lwybr pwysig a mynedfa i'r ardal gadwraeth lle mae yna olygfa drawiadol o'r adeiladau sy'n ffurfio'r grŵp treflun amlwg ar hyd ochr ddeheuol y Stryd Fawr.



y/shared/cwdpolicy/graphic/graphic2/cons/wrexhamtc/wrexhamtcamended2018

Ffigwr 8 Canol Tref Wrecsam – Stryt Siarl

4.0 DATGANIAD ARWYDDOCÂD

Mae tarddiad canoloesol Wrecsam yn amlwg ym mhatrwm ei strydoedd sydd i'w weld o adeilad rhestredig Gradd I, Eglwys Plwyf San Silyn i'r gogledd, dwyrain a'r gorllewin (i'r de, yr Afon Gwenfro yn ffurfio rhwystr naturiol i ddatblygiad). Mae ffurf cynllun y strydoedd a'r lonydd cefn, yr adeiladau bwrdeisiwr cul hir ac adeiladau ffrâm pren fel rhifau 5, 7 a 9 Allt y Dref, yn parhau'n dystiolaeth pellach o darddiad canoloesol. Yn yr 17eg a'r 18fed ganrif, roedd masnachwyr teithio a ffeiriau mor bell i ffwrdd â Swydd Efrog, Manceinion a Birmingham wedi eu cynnal yn y strydoedd, fyddai wedi eu lledu ar eu cyfer. Mae Wrecsam yn cynnwys llawer o strydoedd sy'n dangos eu bod wedi eu lledu, yn benodol, Stryd Fawr, Allt y Dref, Stryt yr Hôb a Stryt Siarl. Lle mae'r strydoedd hyn yn cydgyfeirio maent yn galluogi golygfeydd pwysig a phell gyrhaeddol drwy ganol y dref.

Nodwedd bwysig yn y dref yw ei athreiddedd cerddwyr a grëwyd gan gysylltiadau pwysig a ffurfir rhwng prif strydoedd gan lonydd cefn cul ac arcêd, fel Stryt y Banc, Rhes y Deml, Arcêd Ganolog ac Arcêd Owrtyn. Mae Stryt y Banc ac Arcêd Ganolog yn arbennig yn llawn bwrlwm gyda siopau bach annibynnol sy'n dod â llawer o gymeriad i ganol y dref.

Mae rhodfan Eglwys Plwyf San Silyn yn fan agored gwyrdd pwysig, yr unig un o fewn yr Ardal Gadwraeth. Mae'n leoliad tawel a llonydd, gydag ymwelwyr a phobl leol yn mwynhau ymweld. Mae wedi'i amgau o fewn waliau pwysig, rheiliau a giatiau gyda nifer o feddrodau anhygoel, gan gynnwys Iâl Elihu, nifer ohonynt hefyd yn strwythurau rhestredig. Mae'r rhodfan yn cynnwys ystod eang o goed aeddfed wedi eu diogelu drwy Orchmynion Diogelu Coed.

Yn nodweddiadol, yn ystod y cyfnod Sioraidd, roedd nifer o'r adeiladau canoloesol wedi eu hymestyn, eu haddasu neu wedi cael blaen newydd yn defnyddio tywodfaen lleol neu'r fricsen Abenbury lleol wedi'i gyfuno â naddiad tywodfaen neu rendrau 'stwco' wedi eu leinio. Rhwng canol a diwedd y 19eg ganrif cafodd adeiladau cyhoeddus a masnachol pwysig eu hadeiladu yn defnyddio meini nadd gyda thywodfaen coch a melyn fel y cyn Fanc Cynilo Ymddiriedolwyr ar gornel y Stryd Fawr a Stryt yr Eglwys. Hefyd yn boblogaidd oedd y defnydd o rendrad wedi'i gyfuno â nodweddion carreg addurnol ar gyfer ffenestri a drysau. Erbyn y cyfnod Edwardaidd, ar droad yr 20fed ganrif, y tueddiad oedd defnyddio'r fricsen Rhiwabon coch lleol a therracotta. Mae'r amrywiaeth hwn o arddull a deunydd adeilad traddodiadol ynghyd â mathau mwy modern yn cyfrannu at gyfuniad unigryw Wrecsam o gymeriad.

Mae addurniad ac addurn yn amlwg drwy'r Ardal Gadwraeth ac yn gwneud cyfraniad sylweddol i'w gymeriad. Yn benodol, mowldin terracotta, balwstradau haearn, corbeling addurniadol a bracedi arwyddion haearn bwrw, yn chwarae rôl sylweddol yn cyfrannu at ansawdd gweledol yr Ardal Gadwraeth.

Mae nifer o'r adeiladau o fewn yr ardal gadwraeth yn rhestredig fel adeiladau o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol arbennig, ond nid yw llawer o adeiladau. Yr adeiladau masnachol hyn sy'n cyfuno ac yn rhoi cydlyniad i gymeriad canol y dref a rhoi cymeriad lleol amlwg ac edrychiad sy'n ffurfio grwpiau treflun cadarn. Mae llawer yn cadw nodweddion cynnar neu wreiddiol, yn arbennig lloriau uchaf ac er bod blaen siopau wedi newid dros

amser, gall gweddillion gael eu cuddio'n aml y tu ôl i ychwanegiadau diweddarach.

Ymysg yr adeiladau traddodiadol o fewn yr ardal gadwraeth mae yna dirnodau pensaernïol allweddol sy'n amlwg o fewn yr Ardal Gadwraeth. Mae'r rhain yn cynnwys Eglwys Plwyf San Silyn, Gwesty'r Wynnstay, yn Talbot a simai Bragdy Border ar Stryt y Twtil. Yn ogystal, mae tafarn yr Horse and Jockey, Marchnad Gyffredinol a Marchnad y Cigydd yn adeiladau amlwg o fewn y dref. Nid yn unig maent yn cyfrannu at y profiad gweledol ond maent yn darparu cysylltiadau corfforol i gymdeithasau hanesyddol pwysig a datblygiad y tŷ yn arbennig drwy fasnach a diwydiant.

Yn y blynyddoedd diweddar mae nifer o fusnesau newydd ac annibynnol wedi eu sefydlu o fewn yr ardal ac mae rhywfaint o waith ailwampio sensitif wedi ailgyflwyno cymeriad a gwneud defnydd o adeiladau gwag trwy waith atgyweirio a chynnal a chadw angenrheidiol. Fodd bynnag, mae angen mwy o fuddsoddiad er mwyn gwella cyflwr amgylchedd hanesyddol y dref ac i adfer ymdeimlad o hyfywedd.

Dyma'r nodweddion sy'n helpu i ddweud stori datblygiad y dref a chreu cymeriad amlwg Wrecsam.

5.0 CYNLLUN RHEOLI

Cyflwyniad

5.1 Mae'r cynllun rheoli yn ceisio amlygu'r ffactorau sy'n lleihau cymeriad arbennig ac ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth ac mae'n anelu i nodi'r cyfleoedd ar gyfer gwella a datblygu cymeriad ac ymddangosiad yr ardal yn well o fewn cynllun gweithredu 10 mlynedd. Darperir canllawiau dylunio manwl ar gynnal a chadw hefyd i gynorthwyo'r sawl â chyfrifoldeb ar gyfer darparu newid a gwneud penderfyniadau hysbys fydd yn diogelu arwyddocâd arbennig yr Ardal Gadwraeth.

Materion allweddol

Patrwm Stryd, Llwybrau a Chysylltiadau Hanesyddol

5.2.1 Mae'r patrwm stryd ganoloesol a rhwydwaith llwybrau a strydoedd cefn yn bwysig i ddeall tarddiad y dref a chynnal cymeriad ac ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth ond mae'r rhain wedi eu niweidio gan y ffactorau canlynol:

- Datblygiad Modern o Ansawdd Gwael a Lled Llain Gorfaint: Mae rhai adeiladau modern o ansawdd gwael wedi disodli strwythurau mwy traddodiadol ac nid oes gan rai unrhyw gysylltiad â lled llain hanesyddol na'r deunydd lleol na chymeriad pensaernïol arbennig Wrecsam. Yn arbennig, mae yna lain estynedig i'r eiddo yn 3 i 9 Stryt yr Hôb nad yw'n parchu lled llain hanesyddol yn y stryd. Mae hyn yn cyflwyno ffascia hir a blaen siopau gwydr i'r stryd a llawr uwch diddychymyg a phlaen, sy'n cyferbynnu â diddordeb a dryswch yr adeiladau gyferbyn. Mae gan faes gwasanaeth yr adeilad hwn effaith negyddol arbennig ar Stryt yr Abad lle mae'r raddfa a blaen marwaidd yn cael effaith gweledol niweidiol sylweddol ar un o strydoedd mwyaf hanesyddol yr ardal. Mae parcio o flaen yr ardal gyflenwi a storfa bin masnachol yn gwneud y mater hwn yn waeth ac yn cyflwyno golwg negyddol iawn i'r Ardal Gadwraeth.

  Wrth iddynt godi, dylid cymryd cyfleoedd i ddisodli ac ad-drefnu adeiladau modern o ansawdd gwael i barchu lled llain traddodiadol ac adfer rhythm mwy cymhleth y strydwedd yn unol â Chanllawiau Dylunio fel y nodir o fewn Atodiad 1.

- Annibendod Stryd: Mae llawer o niwed yn cael ei achosi i ansawdd strydlun, lleoliad adeiladau allweddol a mwynhad y gofod drwy annibendod stryd cyffredinol ar ffurf biniau masnachol, arwyddion stryd, byrddau hysbysebu, dodrefn stryd wedi eu cynnal yn wael a threfniadau parcio penodol. Mae dyluniad anghydnaws, defnyddio deunydd annodweddiadol a lleoliad anfoddhaol yn amharu ar undod ffasâd a golygfeydd pwysig a gallant mewn rhai achosion amharu ar fynediad. Mae diffyg lleoliadau addas i guddio neu ddarparu storfa biniau masnachol synhwyrol yn bryder. Mae hyn yn creu ymddangosiad o annibendod sy'n tynnu oddi ar leoliad prif adeiladau rhestredig ac yn benodol, golygfeydd pwysig a chysylltiadau i Eglwys y Plwyf. Mae angen ardaloedd storio wedi eu hadeiladu'n bwrpasol i guddio a rheoli gwaredu sbwriel yn well i fynd i'r afael â'r problemau presennol tra dylai storfeydd

bin priodol gael eu dylunio ar gyfer cynigion pob datblygiad newydd yng nghanol y dref i atal y broblem rhag gwaethygu.

- Wyneb o Ansawdd Gwael: Mae cyflwr wyneb strydoedd, gyda slabiau palmant wedi torri yn cynnwys effeithiau niweidiol pellach. Er bod cynigion ar waith i ddisodli deunydd wyneb o fewn rhannau o'r Ardal Gadwraeth mae angen dulliau cyson a chynnal a rheoli rheolaidd i sicrhau eu bod yn cael eu cynnal yn briodol. Mae hyn yn cynnwys newid slabiau wedi torri a glanhau yn rheolaidd, yn arbennig cael gwared â gwm cnoi.

- Diffyg plannu: Nid oes digon o goed yn cael eu plannu a mannau gwyrdd o fewn yr Ardal Gadwraeth, y rhan fwyaf i'w weld mewn mynwentydd yn unig ar hyn o bryd. Byddai creu lle ar gyfer plannu a thirlunio o fudd sylweddol i brif strydoedd o fewn yr Ardal Gadwraeth, yn benodol Stryt yr Hôb ond gall gwasanaethau tanddaearol eu cyfyngu. Mae Strategaeth Coed a Choetir Wrecsam yn ceisio cynyddu brigdwf o fewn y Fwrdeistref Sirol ac mae'n nodi canol y dref fel blaenoriaeth. Mae Strategaeth Parth Cyhoeddus Canol Tref Wrecsam yn nodi lleoliadau addas ar gyfer plannu a dylid gweithredu'r cynllun hwn lle bwriedir cyflwyno cynlluniau parth cyhoeddus yn y dyfodol. Gellir defnyddio arian o gytundebau Adran 106 drwy ddatblygiad newydd o fewn canol y dref hefyd i sicrhau'r gwelliannau hyn.

- Goleuo: Roedd astudiaeth a gynhaliwyd i gefnogi Astudiaeth Parth Cyhoeddus Canol Tref Wrecsam (AECOM, 2015) yn amlygu golau o ansawdd gwael fel mater penodol yng nghanol y dref. Nid yw lliw golau presennol a golau gwael yn gyffredinol o ganlyniad yn gwneud i ddefnyddwyr deimlo'n ddiogel ac yn gwneud strydoedd yn ddiwahoddiad. Mae dewisiadau ar gyfer golau gwell o fewn canol y dref wedi eu hamlygu o fewn Astudiaeth Parth Cyhoeddus.

Deunydd Adeiladu a Manylion Pensaernïol

5.2.2 Mae ystod deunydd adeiladu ac ansawdd adeiladau a manylion pensaernïol yn cyfuno i ffurfio treflun diddorol. Fodd bynnag mae'r ffactorau canlynol wedi lleihau hyn:

- Colli neu addasu blaen siopau traddodiadol: Mae maint priodol, dyluniad ac aroleuo arwyddion yn ogystal ag ansawdd ac arddull blaen siopau yn hanfodol i gynnal cymeriad ac ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth. Mae'r defnydd o ddeunydd amhriodol a dyluniadau heb lawer o gysylltiad ag arddull draddodiadol eiddo presennol yn broblem barhaus.

  Mae llawer o ffryntiadau llawr gwaelod wedi eu haddasu neu eu moderneiddio dros amser gan gael gwared â'r blaen siopau, nodweddion a deunydd hanesyddol. Nid yw llawer o'r amnewidion modern hyn yn cysylltu'n dda o ran cyfrannau, ansawdd neu ddyluniad yr adeiladau gwreiddiol sy'n goroesi ar y lefelau uchaf. Mae angen caniatâd cynllunio ar gyfer newid blaen siopau a dylid eu dylunio yn unol â chanllawiau dylunio fel y nodir yn Atodiad 1. Wrth ddylunio blaen siopau newydd mae angen parchu nid yn unig yr adeilad presennol ond adeiladau cyfagos sydd o bosibl wedi eu dylunio fel un cyfansoddiad. Mae hefyd angen dylunio mewn unrhyw fesurau diogelwch yn y ffordd mwyaf sensitif. Yn ogystal dylai camau gorfodi dylunio

mwy ystyriol o fewn canol y dref gael blaenoriaeth.

- Arwyddion amhriodol: Mae'r datgysylltu rhwng lloriau uchaf a gwaelod yn waeth oherwydd ffasgai finyl rhy fawr nad yw'n parchu cyfran traddodiadol, ansawdd na nodweddion yr adeilad. Mewn llawer o achosion ni ellir rheoli'r rhain drwy ofynion cynllunio presennol sy'n arwain at newid amhriodol heb ei ystyried. Gellir ystyried cyflwyno 'ardal rheolaeth arbennig ar hysbysebion' fyddai'n darparu mwy o reoliadau fel modd ar gyfer gwella ansawdd arwyddion o fewn yr Ardal Gadwraeth.

- Diffyg cynhaliaeth: Drwy ddiffyg cyffredinol o fuddsoddiad, mae rhai adeiladau angen atgyweirio hanfodol yn arbennig y lefelau uchaf. Er gwaethaf rhai gwelliannau mae cyflwr cyffredinol yr adeiladau yn wael ac mae llawer angen eu cynnal nawr er mwyn atal mwy o atgyweirio sylweddol yn ddiweddarach. Mae angen gwneud defnydd o ofod llawr nad yw'n cael ei ddefnyddio i osgoi esgeulustod pellach. Bydd y Cynllun Treftadaeth Treflun arfaethedig, os yn llwyddiannus, yn darparu cymorth grant ar gyfer atgyweirio deunydd hanesyddol rhai adeiladau a gwaith corfforol arall i allu defnyddio gofod llawr uchaf yn well. Darperir arweiniad ar gynnal a chadw yn Atodiad 2.

- Deunydd amhriodol a cholli deunydd gwreiddiol: Addasiadau amhriodol sydd wedi tynnu'r manylion hanesyddol gwreiddiol a deunydd, mae'n amlwg eu bod wedi eu disodli gyda deunydd modern cyfatebol o ansawdd gwael. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys llechi to a theils artiffisial, rendrau sment modern, a newid ffenestri a drysau mewn arddull amhriodol ac uPVC. Bydd y Cynllun Treftadaeth Treflun arfaethedig fel y cyfeirir ato uchod yn cefnogi ailosod nodweddion a gollwyd ond mae angen camau gorfodi hefyd i fynd i'r afael â newid anawdurdodedig.

Defnydd a Bywiogrwydd

5.2.3 Mae'r hinsawdd economaidd bresennol ac arferion siopa gwahanol yn newid y ffordd y defnyddir canol y dref sy'n arwain at y materion canlynol:

- Lle gwag heb ei ddefnyddio a bylchau ar safleoedd: Mae yna lawer o fannau gwag yng nghanol y dref a throsiant a diffyg defnydd cyson o loriau uchaf. Mae llawer o loriau uchaf yn parhau'n wag gan arwain at ddiffyg cynnal a chadw a dirywiad yn y deunydd strwythurol, sy'n diraddio ymddangosiad cyffredinol y strydwedd. Mae'r hen Burtons ar gyffordd Stryt yr Hôb a'r Stryd Fawr yn arbennig o niweidiol i olygfeydd allweddol yr Eglwys. Mae'r cyflwr presennol gyda ffenestri wedi eu gorchuddio yn edrych yn wael a gellir cymryd mesurau dros dro i wella'r sefyllfa hon. Mae lefelau gwag o fewn Arcêd Owrtyn hefyd yn bryder yn un o'r mannau mwyaf amlwg o fewn canol y dref. Safleoedd gwag yn 22 Allt y Dref, wrth ymyl tafarndy'r Commercial ar Gamfa'r Cŵn, i ddwyrain Gwesty'r Wynnstay ar Stryt Siarl, yr hen safle theatr ar Stryt Henblas ac ar Stryt Yorke, yn effaith niweidiol ar barhad gweledol strydwedd.

- Bywiogrwydd: Mae cadw unedau manwerthu ac annog defnydd cymysg yn hanfodol i sicrhau bywiogrwydd yr Ardal Gadwraeth drwy gydol y dydd a min nos. Mae yna ddiffyg gweithgaredd yn parhau ar ôl oriau cau busnesau arferol.

Ymwybyddiaeth a Gwerthfawrogiad

5.2.4 Prif fater yw diffyg ymwybyddiaeth o bwysigrwydd yr amgylchedd hanesyddol a'r amrywiol elfennau sy'n cyfrannu ato. Mae angen ystyried yr ardal gadwraeth, nid yn unig o safbwynt y deunydd corfforol ond hefyd y cysylltiadau hanesyddol ac ystyr sydd ynghlwm â'r adeiladau, enwau lleoedd a lleoedd gwag. Mae angen adrodd a dehongli stori'r dref yn well os yw am gael ei werthfawrogi'n iawn.

- Deall deunydd a sgiliau traddodiadol: Gellir ond diogelu deunydd hanesyddol y dref yn iawn drwy ddefnyddio deunydd cywir a thechnegau atgyweirio priodol fodd bynnag mae yna brinder contractwyr crefftus sy'n gallu gweithio gyda deunydd a thechnegau traddodiadol. Mae rhaglen sgiliau adeiladau traddodiadol wedi ei datblygu mewn partneriaeth gyda Cadw, Coleg Cambria, Cadwyn Clwyd, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, CITB a CWIC (Canolfan Arloesi Adeiladu Cymru) sy'n cydnabod yr heriau sy'n bodoli ar hyn o bryd yn y sector adeiladu o safbwynt y wybodaeth a'r sgiliau gofynnol ar gyfer cadwraeth briodol o adeiladau traddodiadol yn ogystal â mynediad a nifer ar gyrsiau sgiliau adeiladu traddodiadol presennol. Drwy'r bartneriaeth hon rhagwelir y byddai'r Cynllun Treftadaeth Treflun yn darparu llwyfan ar gyfer helpu i gefnogi i ddarparu'r rhaglen, gan roi cyfle i berchnogion adeilad, asiantaethau, contractwyr a'r sawl sy'n ymuno â'r sector i ddatblygu sgiliau technegol a chodi eu hymwybyddiaeth, dealltwriaeth a gwerthfawrogiad ar gyfer treftadaeth.

- Angen ar gyfer dehongliad gwell: Mae gan Wrecsam lawer o gysylltiadau hanesyddol pwysig ar gyfer pobl, digwyddiadau, masnach a diwydiant a llawer o straeon i'w hadrodd sy'n rhan o'r adeiladau, lleoedd a mannau yn y dref. Mae yna ddiffyg dehongli a gwybodaeth ar gael i bobl leol ac ymwelwyr a gellir gwneud llawer mwy o ymchwil.

- Pwysleisio nodweddion cadarnhaol: Yn aml, ni sylwir ar y pensaernïaeth, yn arbennig i loriau uchaf ac mae yna olygfa negyddol o'r dref gyda materion ar lefel daear. Byddai golau yn cynorthwyo i ddangos rhai o'r adeiladau mwyaf sylweddol a rhoi mwy o bwyslais ar ansawdd yr amgylchedd hanesyddol. Mae'r Strategaeth Parth Cyhoeddus yn gwneud argymhellion ar gyfer goleuo prif adeiladau a mannau a dylid gweithredu'r rhain wrth i gyfleoedd godi.

Newidiadau i Ffiniau Ardal Gadwraeth

5.2.5 Mae angen adolygu ffin Ardal Gadwraeth o dro i dro. Roedd arolwg cyhoeddus ar-lein a gynhaliwyd ym mis Medi 2018 wedi canfod bod y mwyafrif o'r ymatebwyr wedi ystyried bod y ffin bresennol yn briodol. Roedd yna deimlad wrth ehangu'r ardal nawr, y gellir colli'r ffocws ar y dreftadaeth bresennol. Ar sail hyn ni fwriedir gwneud unrhyw addasiadau i'r ffin ar hyn o bryd. Fodd bynnag gellir rhoi ystyriaeth i'r ardaloedd canlynol yn y dyfodol:

- Glan yr Afon, Stryt y Bont a Stryt y Ffynnon
- Stryt Caer a Ffordd Caer
- Sgwâr y Frenhines a Stryt y Lampint
- Tir i'r de o Fynwent San Silyn

Cyfeiriwyd at ardaloedd eraill o fewn yr arolwg ond maent wedi eu cynnwys o dan ddynodiad Ardal Gadwraeth ar wahân.

5.3 Cynllun Gweithredu

Cynllun Asesu a Rheoli Nodweddion Ardal Gadwraeth Canol Tref Wrecsam Cynllun Gweithredu				
Amcan	**Camau Gweithredu**	**Amserlen**	**Cynlluniau a Mentrau Cysylltiol**	**Cyfrifoldeb**
Cadw'r patrwm stryd hanesyddol	Dylai pob datblygiad newydd fod yn unol â chanllawiau dylunio fel y nodwyd yn Atodiad 1 y ddogfen hon.	Ar unwaith		Amgylchedd a Chynllunio Sector Preifat
Cael gwared ar annibendod ar strydoedd	Adolygu trefniadau rheoli presennol ar gyfer gwaredu gwastraff ac archwilio cyfleoedd ar gyfer ardaloedd storfa a adeiladwyd yn bwrpasol sy'n briodol i gymeriad ac ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth.	2019/2020	Uwch Gynllun Canol Tref Wrecsam (2016)	Amgylchedd a Chynllunio Tai a'r Economi Grŵp Adfywio Canol y Dref
	Pob Cais Cynllunio ar gyfer datblygiad newydd o fewn canol y dref i gynnwys cynllun rheoli gwastraff.	Ar unwaith		Amgylchedd a Chynllunio Sector Preifat
	Dodrefn stryd newydd i gael ei leoli a'i ddylunio yn unol â Strategaeth Parth Cyhoeddus (2015).	Ar unwaith	Strategaeth y Parth Cyhoeddus (2015)	Amgylchedd a Chynllunio
Gwella wyneb strydoedd	Parhau â rhaglen gwaith ail-wynebu i brif strydoedd o fewn canol y dref.	Parhaus	Strategaeth y Parth Cyhoeddus (2015)	Amgylchedd a Chynllunio
	Holl waith wynebu newydd i gael ei ddylunio yn unol ag argymhellion y Strategaeth Parth Cyhoeddus (2015).	Ar unwaith	Strategaeth y Parth Cyhoeddus (2015)	Amgylchedd a Chynllunio
	Prosesau rheoli i gael eu hadolygu o ran glanhau ffyrdd a phalmentydd.	2019		Amgylchedd a Chynllunio
Gwella lleoliad Eglwys Plwyf San Silyn	Mewn cydweithrediad â'r Eglwys cynnal adolygiad o gyflwr y parth cyhoeddus o fewn lleoliad yr ased a chytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gweithredu.	2019		Amgylchedd a Chynllunio Eglwys Plwyf San Silyn

Plannu mwy	Sicrhau bod amcanion ac argymhellion y Strategaeth Coed a Choetir 2016-2026 a'r Strategaeth Parth Cyhoeddus (2015) yn cael eu gweithredu yn ystod gwaith cysylltiol neu drwy arian Adran 106 fel bo'n briodol.	Ar unwaith	Strategaeth Coed a Choetir 2016-2026 Strategaeth y Parth Cyhoeddus (2015)	Amgylchedd a Chynllunio Sector Preifat
Gwella ansawdd blaen siopau ac arwyddion newydd	Pob datblygiad newydd i fod yn unol â chanllawiau fel y nodwyd o fewn CCLl 12: Canllawiau i gael eu hadolygu ar ôl mabwysiadu'r CDLl	2019/2020	Cynllun Datblygu Lleol 2013-2018	Amgylchedd a Chynllunio Tai a'r Economi Sector Preifat
	Camau gorfodi o fewn canol y dref i fod yn flaenoriaeth – gweithdrefnau gorfodi i gael eu hadolygu a'u diweddaru yn unol â hynny.	2019		Amgylchedd a Chynllunio
	Archwilio'r dewis o ddynodi 'ardal rheolaeth arbennig ar hysbysebion'	2019/2020		Amgylchedd a Chynllunio
Gwella safonau cynnal a chadw adeiladau	Cyflwyno cais Cam II i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer Cynllun Treftadaeth Treflun (a gweithredu, os yn llwyddiannus)	Mawrth 2019 (2019 – 2023)	Cynllun Treftadaeth Treflun Wrecsam (yn dilyn cymeradwyaeth gan HLF)	Tai a'r Economi Amgylchedd a Chynllunio Grŵp Adfywio Canol y Dref
Adfer ac adnewyddu adeiladau hanesyddol allweddol	Cyflwyno cais Cam II i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer Cynllun Treftadaeth Treflun (a gweithredu, os yn llwyddiannus)	Mawrth 2019 (2019 – 2023)	Cynllun Treftadaeth Treflun Wrecsam (yn dilyn cymeradwyaeth gan HLF)	Tai a'r Economi Amgylchedd a Chynllunio Grŵp Adfywio Canol y Dref
	Ymgymryd â gwelliannau i ddeunydd adeiladau marchnad canol y dref	2019-2023		
Gwneud defnydd	Cyflwyno cais Cam II i Gronfa Dreftadaeth y	Mawrth 2019	Cynllun Treftadaeth Treflun	Tai a'r Economi

o adeiladau gwag a lloriau na ddefnyddir	Loteri ar gyfer Cynllun Treftadaeth Treflun (a gweithredu, os yn llwyddiannus)	(2019 – 2023)	Wrecsam (yn dilyn cymeradwyaeth gan HLF)	Amgylchedd a Chynllunio Grŵp Adfywio Canol y Dref
	Datblygu meini prawf ar gyfer adeiladau gwag pwysig		Cynllun Adeiladau Pwysig Gogledd Cymru – Cynllun Adfywio Rhanbarthol TRI	Tai a'r Economi Grŵp Adfywio Canol y Dref
	Gwella ymddangosiad ffenestri siopau gwag fel mesur dros dro drwy ddefnyddio finyls ac ati mewn ymgynghoriad â pherchnogion.	Parhaus		Tai a'r Economi Grŵp Adfywio Canol y Dref
Cynyddu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad	Gweithredu Prosiect Sgiliau Adeiladu Traddodiadol	2018 Ymlaen		Tai a'r Economi
	Gweithredu gwelliannau goleuadau prif adeiladau a mannau a sicrhawyd drwy arian adran 106 lle bo'n briodol	Ar unwaith	Strategaeth y Parth Cyhoeddus (2015)	Amgylchedd a Chynllunio
	Archwilio prosiectau ar gyfer canol y dref ar y cyd â'r Bartneriaeth Treftadaeth.	2018 Ymlaen	Strategaeth Treftadaeth Wrecsam 2018-2028	Tai a'r Economi
	Gwella proffil canol y dref fel cyrchfan twristiaeth	2018 Ymlaen	Cynllun Rheoli Cyrchfan 2018-2020	Tai a'r Economi Sector Preifat

5.4 MONITRO AC ADOLYGU

Bydd cynnydd a wnaed wrth ddarparu'r cynllun gweithredu yn cael ei asesu'n flynyddol a chamau'n cael eu hadolygu yn unol â hynny. Bydd unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Gweithredu yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Cynllunio ar gyfer cymeradwyaeth.

ATODIAD 1: CANLLAWIAU DYLUNIO

Mae cymeriad yr adeiladau unigol a golwg strydoedd, sydd yn ffurfio'r Ardal Gadwraeth, yn deillio o nifer o ffactorau ac mae'r canllawiau dylunio canlynol yn berthnasol. O fewn y paramedrau hyn mae yna sgôp ar gyfer dyfeisio pensaernïol o ansawdd uchel, cyn belled â bod hyn yn gydnaws â'r cymeriad presennol.

Y Safle

Bydd ffurf safle unrhyw ddatblygiad posibl neu ailddatblygiad, yn ei leoliad ar y stryd, a'i effaith o ran golygfeydd, yn effeithio ar faint priodol y gwaith adeiladu arfaethedig. Mae'n rhaid i adnewyddu adeilad presennol neu ddatblygu adeilad newydd gyfannu'r strydwedd cyffredinol o safbwynt y canlynol:

Graddfa

Roedd lled llain adeiladau'r 18fed a'r 19eg ganrif, sy'n cynnwys y mwyafrif o adeiladau yn yr Ardal Gadwraeth, yn draddodiadol yn gul iawn gyda'r strydwedd o ganlyniad a ffurfiwyd gan gyfres o adeiladau gyda ffrynt cul. Mae'n rhaid i adfer ac ailddatblygu osgoi ffasâd ailadroddus enfawr, sy'n nodweddiadol o gymaint o ddyluniadau modern.

CymesureddMae arddulliau hŷn o adeiladau yn dilyn systemau traddodiadol o gymesuredd. Yn y rhan fwyaf o'r adeiladau yn yr Ardal Gadwraeth, mae'r berthynas rhwng ffenestri, drysau ac uchder y lloriau a'r berthynas rhwng solet a gwagle (arwynebedd wal o ran y nifer a maint agoriad ffenestr neu ddrws) wrth ddylunio drychiadau yn hanfodol.

Mae'n rhaid i ddatblygiad blaen gydymffurfio â phatrwm stryd hanesyddol er y gellir rhoi ystyriaeth i ymgorffori nodweddion gwarchodedig, sy'n estyn neu'n cilfachu ar lefelau llawr uchaf er enghraifft, cornisio, pediment ac ati.

Toeau

Mae llinell y to bron bob amser yn nodwedd amlwg o adeilad ac mae'n hanfodol cadw siâp, goledd, ymyl a manylion ac addurniadau. Mae uchder a siapiau toeau'n bwysig; mae toeau gwastad yn ddiarth o ran y traddodiad lleol ac maent yn annerbyniol. Mae cyrn simnai yn nodweddion pwysig o'r toeau a dylid eu cadw hyd yn oed os nad oes eu hangen mwyach. Pan gaiff deunyddiau toi eu hamnewid dylent gyd-fynd â lliw, maint a gwead y gwreiddiol.

Waliau Allanol

Rhaid i unrhyw newid neu waith atgyweirio i waliau allanol barchu'r deunyddiau adeiladu presennol a chydweddu â nhw o ran gwead, ansawdd a lliw. Dylid gwneud pob ymdrech i gadw neu ail-ddefnyddio gwaith brics a gwaith cerrig hanesyddol, na ddylid eu rendro, eu chwipio â gro na'u paentio. Dylid ail-bwyntio gyda morter sy'n cyd-fynd â'r presennol o ran lliw, math a gwead ac yn hanesyddol byddai wedi ei wneud â chalch a thywod yn unig. Mae morteri sment caled, modern yn atal anweddiad lleithder drwy'r uniadau, sydd yn hytrach yn cael ei dynnu drwy'r deunydd meddalaf nesaf, a'r gwaith maen ei hun yn difrodi ymddangosiad a strwythur yr adeilad. Ni ddylid tynnu rendrad gwreiddiol i ddangos carreg rwbel, bric na waliau ffrâm coed, na fwriadwyd iddynt ymddangos. Yn draddodiadol, roedd gorffeniad rendrad yn cynnwys calch. Mae morter a rendr sment caled modern yn atal lleithder rhag anweddu a gall gronni o fewn y wal gan achosi lleithder ar y tu fewn. Pan fo hynny'n briodol, dylid disodli rendradau sment caled gyda dewis amgen o galch. Dylid

atgyweirio nwyddau dŵr glaw os ydynt yn wreiddiol neu eu hadfer mewn deunyddiau gwreiddiol. Mae'n rhaid cadw neu efelychu gwaith plastro neu fowldio pan fydd angen gwneud gwaith atgyweirio.

Ffenestri

Mae'r rhain yn nodweddion pwysig a dylent weddu'n dda â'i gilydd a chydag adeiladau eraill cyfagos a dylent barchu agoriadau presennol. Dylai unrhyw waith atgyweirio neu ffenestri newydd bob amser gydweddu â'r gwreiddiol, fodd bynnag rhaid ystyried cadw'r gwreiddiol yn gyntaf bob amser.

Blaen Siopau ac Arwyddion

Gall fod yn anodd integreiddio ffenestri siopau modern sy'n defnyddio un darn mawr o wydr yn llwyddiannus o fewn stryd hanesyddol. Mae cadw blaen siopau gwreiddiol yn hanfodol ac mae'n rhaid i flaen siopau newydd adlewyrchu cyfran fertigol y drychiad. Dylai arwyddion newydd fod yn destun ystyriaeth ofalus i sicrhau eu bod yn integreiddio i ddyluniad a chyfansawdd y deunydd trefol a bydd yn synhwyrol ac yn anymwthiol. Caiff arwyddion arddangos eu cyfyngu i lefel yr wynebfwrdd ac mae'n rhaid i wynebfyrddau a'r llythrennau arnynt fod yn gymesur â'r adeilad cyfan ac ni ddylent guddio nodweddion traddodiadol y drychiad. Rhoddir croeso pan fo hynny'n bosibl i arddulliau corfforaethol os ydynt yn gydnaws â chymeriad hanesyddol yr ardal. Anogir arwyddion wedi eu paentio â llaw neu'r defnydd o lythrennau unigol. Gall y ddau ffasgia ac arwyddion taflunio gael eu haroleuo'n allanol mewn modd synhwyrol. Dylid osgoi ffasgia wedi'i oleuo'n fewnol ac arwyddion ymestynnol. Nid yw'r defnydd o perspecs neu alwminiwm ar gyfer arwyddion o fewn yr ardal gadwraeth yn ddymunol. Am arweiniad pellach cyfeiriwch at *Nodyn Cyfarwyddyd* Cynllunio Lleol 12: Dyluniad a Diogelwch *Blaen Siop* *https://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/planning/lpg/guide12e.pdf*

Nodweddion Addurnol

Mae'n rhaid cadw mowldin terracotta, ffigwr, arysgrif, rheilen, nodweddion goruwchadail ac ati fel nodweddion cymeriad adeilad a'r Ardal Gadwraeth yn gyffredinol.

Wyneb

Mae'n rhaid cadw ac atgyweirio ardaloedd setiau traddodiadol, slab carreg, cerrig crynion a brics a phalmentydd clai. Dylai wynebau newydd gael eu dylunio yn unol ag argymhellion y Strategaeth Parth Cyhoeddus (2015), eu lliw, gwead a phatrwm yn cydfynd â chymeriad y llwybrau troed gyferbyn ac yn sensitif i adeiladau cyfagos.

Cynhyrchu Ynni Micro

Er bod y defnydd o systemau cynhyrchu ynni micro yn cael ei annog, ni fyddant yn cael eu derbyn lle mae offer wedi'i osod ar flaen adeilad neu brif ddrychiad neu weladwy lle mae effaith weledol negyddol ar yr Ardal Gadwraeth neu lle effeithir ar ddeunydd neu leoliad Adeilad Rhestredig yn andwyol.

ATODIAD 2: CYNNAL A CHADW

Mae cynnal a chadw rheolaidd yn un o'r ffactorau pwysicaf i warchod adeiladau hanesyddol. Heb gynnal a chadw'n rheolaidd gall diffygion ddigwydd sy'n gostus ac yn drafferthus a gellir colli'r nodweddion a deunydd hanesyddol sy'n rhoi'r cymeriad arbennig i'r adeilad hefyd.

Mae yna lawer o resymau da pam bod cynnal a chadw rheolaidd ac wedi'i gynllunio mor bwysig:

- Mae cynhaliaeth reolaidd yn ymestyn ymddangosiad adeilad, sy'n gallu ychwanegu gwerth a chyfrannu at deimlad o falchder a lle o fewn cymuned;
- Mae cynnal a chadw ac archwilio rheolaidd yn caniatáu dod o hyd i broblemau difrifol yn fuan, fel pydredd gwlyb neu sych, gan sicrhau bod mwy o'r deunydd gwreiddiol yn cael ei warchod. Mae hyn yn ddull cynaliadwy hefyd, gan gyfyngu'r angen am ddeunydd newydd a chostus yn aml ac achosi llai o wastraff;
- Gellir cyllido ar gyfer cynnal a chadw a mân waith ymlaen llaw, sy'n costio llai na chyfres o daliadau mwy, annisgwyl ar gyfer atgyweiriadau mwy sylweddol;
- Gellir arbed arian drwy atgyweirio yn hytrach na newid nodweddion fel ffenestri a drysau;
- Mae mabwysiadu dull cynlluniedig yn rhoi mwy o amser i chi ddewis y crefftwyr a'r deunydd gorau ar gyfer yr adeilad.

Deunydd ac Atgyweirio

Wrth gynllunio atgyweiriadau mae'n bwysig deall sut cafodd adeilad ei adeiladu a'r deunydd a'r technegau a ddefnyddiwyd. Yn gyffredinol, dylai atgyweiriadau i adeilad hanesyddol ddefnyddio'r un deunydd a'r technegau â'r gwreiddiol. Bydd hyn yn sicrhau bod atgyweiriadau a deunyddiau yn gydnaws o ran perfformiad ac ymddangosiad. Mae defnyddio deunydd modern ar adeiladau hanesyddol yn aml yn amhriodol ac yn achosi mwy o broblemau difrifol i ffabrig yr adeilad yn y tymor hir. Mae hyn yn arbennig o amlwg lle mae sment rendro a mortar wedi'i ddefnyddio ar gyfer carreg draddodiadol ac adeiladau a waliau brics, lle mae'r sment caled yn dal lleithder o fewn y garreg neu'r gwaith brics meddalach ac yn achosi dadfeiliaid i elfennau allanol a mewnol yr adeilad.

Mae'n bwysig cyn ymgymryd ag unrhyw waith atgyweirio bod achosion sylfaenol y diffyg wedi'u nodi ac wedi derbyn sylw fel nad ydych yn trin y symptom yn unig.

Rhestr Wirio Archwilio

Dylai'r rhestr wirio ganlynol eich helpu i gynllunio archwiliadau rheolaidd o'ch eiddo a helpu i nodi ac atal diffygion pellach rhag digwydd:

https://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/planning/info_sheets/maintenance.pdf

ATODIAD 3: RHEOLYDDION ARDAL GADWRAETH

Rheolaethau Arbennig

Er mwyn amddiffyn yr amgylchedd arbennig, mae rheolaethau llymach yn bodoli o fewn yr Ardal Gadwraeth. Ni fwriedir i'r rhain fod yn rhwystr i newid, ond yn rheolaeth bositif i ddiogelu cymeriad yr ardal yn ei chyfanrwydd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Pwerau rheoli ychwanegol o ran tai annedd ar gyfer estyniadau, estyniadau to ac addasiadau, cladin, garejys a lleoliad lloerenni teledu;
- Mae angen Caniatâd Ardal Gadwraeth ar gyfer y rhan fwyaf o waith dymchwel adeiladau yn gyfan gwbl. Ni roddir caniatâd i ddymchwel fel arfer hyd nes y bydd yn hysbys beth fydd hyd a lled yr ailddatblygu.
- Mae angen chwe wythnos o rybudd i'r Cyngor ar gyfer gwaith ar goed.

Hysbysebion

Gyda phob cynnig ar gyfer datblygu ac arddangos hysbysebion mewn Ardal Gadwraeth, mae angen cymryd mwy o ofal i sicrhau bod y cynlluniau'n gwella ac yn cadw cymeriad arbennig yr ardal. Mae'r dyluniad a'r dewis o ran deunyddiau yn arbennig o bwysig yn hyn o beth. Awgrymir cysylltu ag Adran Gynllunio'r Awdurdod i wirio a oes angen Caniatâd Hysbysebu.

Adeiladau Rhestredig

Mae Adeilad Rhestredig yn adeilad a ystyrir o 'ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig' ac sydd o'r herwydd angen gwarchodaeth arbennig. Ar ôl ei restru, mae adeilad wedi'i amddiffyn o dan y Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Mae'r rhestru yn amddiffyn yr adeilad yn fewnol ac yn allanol waeth beth yw'r rhesymau dros restru, yn ogystal ag unrhyw wrthrych neu strwythur wedi'i osod ar yr adeilad neu unrhyw wrthrych neu strwythur o fewn cwrtil yr adeilad, sydd wedi bodoli ers cyn 1 Gorffennaf 1948. Mae hyn i sicrhau bod cymeriad arbennig yr adeilad a'i leoliad wedi'u diogelu.

Lle bwriedir gwneud gwaith ar Adeilad Rhestredig, mae bob amser yn ddoeth gwirio gydag Adran Gynllunio'r Cyngor a oes angen Caniatâd Adeilad Rhestredig ai peidio. Yn achos unrhyw waith arfaethedig, mae'n rhaid rhoi sylw arbennig i ddymunoldeb cadw'r adeilad, ei leoliad ac unrhyw nodweddion o ddiddordeb arbennig.

Wrth ystyried unrhyw waith i Adeilad Rhestredig, y prif amcan fydd cadw'r holl nodweddion gwreiddiol a ffabrig yr adeilad pan fo hynny'n bosibl. Mae angen Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer dymchwel adeilad rhestredig neu ar gyfer ei newid, os byddai hynny'n effeithio ar gymeriad, cyfanrwydd neu ddiddordeb arbennig yr adeilad. Gallai hyn gynnwys newid ffenestri a drysau, newid deunyddiau toi, paentio bricwaith, symud neu dynnu waliau mewnol neu waith plastr, lleoedd tân, estyll neu risiau. Mae'n bosibl na fydd angen caniatâd ar gyfer gwneud yr un atgyweirio ond cynghorir eich bod yn gwirio cyn ymgymryd ag unrhyw waith.

Adeiladau Masnachol

Nid oes gan eiddo a ddefnyddir yn fasnachol hawliau datblygu a ganiateir o dan y Gorchymyn Cynllunio Tref a Gwlad (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995. Felly'r unig waith y gellir ei wneud heb Ganiatâd Cynllunio yw gwaith trwsio a chynnal ac addasiadau mewnol, cyn belled â bod yr adeilad ddim yn Adeilad Rhestredig.

ATODIAD 4: ADEILADAU RHESTREDIG

Adeilad Rhestredig	Gradd
Rhif. 20 Stryt Siarl	Gradd II
Gwesty'r Wynnstay Arms, Stryt Yorke	Gradd II
Eglwys Plwyf San Silyn, Stryt yr Eglwys	Gradd I
Rhif.3 Stryt yr Eglwys	Gradd II
Rhif. 8 Stryt yr Eglwys	Gradd II*
Rhif26 Stryd Fawr	Gradd II
Rhif 29 Stryd Fawr	Gradd II
Rhif31 Stryd Fawr	Gradd II
Rhif33 (arfer bod yn 32) Stryd Fawr	Gradd II
Cyn Lysgenhadaeth, Stryd Fawr	Gradd II
Rhif.30 Stryd Fawr	Gradd II
Rhif.37 Stryd Fawr	Gradd II
Rhif.42 Stryd Fawr	Gradd II
Rhif.43 Stryd Fawr	Gradd II
Tafarn The Nags Head, Stryt y Marchog	Gradd II
Rhif.6 Rhes y Deml	Gradd II
Simnai'r Hen Fragdy Border, Stryt Twtil	Gradd II
Tafarn The Old Vaults, Stryt Caer	Gradd II
Rhif .8 Stryd Fawr	Gradd II
Rhifau 12-13 (Tafarn y Golden Lion), Stryd Fawr	Gradd II
Rhif.14 Stryd Fawr (Banc Midland)	Gradd II
Arcêd Canolog, Stryt yr Hôb	Gradd II
Banc y National Westminster, Stryt yr Hôb	Gradd II
Rhif.28 Stryd Fawr	Gradd II
Deial Haul i Orllewin Eglwys San Silyn	Gradd II
Giatiau Mynwent San Silyn, Stryt yr Eglwys (Hefyd Cofeb Hynafol)	Gradd II*
Beddrod Elihu Yale, Gorllewin Eglwys San Silyn	Gradd II*
Marchnad y Cigydd, Stryt Henblas	Gradd II
Adeilad Marchnad Cyffredinol, Rhif.21 Stryt Henblas	Gradd II
Tafarndy'r Cross Foxes, Stryt yr Abad (Ochr y Gogledd)	Gradd II
Tafarndy Old Swan, Stryt Abad (Ochr y De)	Gradd II
Tafarndy The Commercial, Camfa'r Cŵn	Gradd II
Tafarndy The Cambrian Vaults, Camfa'r Cŵn	Gradd II
Horse and Jockey PH. Stryt yr Hôb	Gradd II
Rhif.5 Allt y Dref	Gradd II
Rhif.7 Allt y Dref	Gradd II*
Rhif.9 Allt y Dref	Gradd II
Rhif.38 Stryd Fawr	Gradd II
Rhif. 21 Stryt Siarl	Gradd II
Rhif. 22 Stryt yr Eglwys	Gradd II
Rhif. 23 Stryt yr Eglwys	Gradd II
Rhif 7 Stryt yr Eglwys	Gradd II*
Rhif .9 Stryt yr Eglwys	Gradd II*
Rhif.10 Stryt yr Eglwys	Gradd II*
Rhif.36 Stryd Fawr	Gradd II
Rhif.39 Stryd Fawr	Gradd II
Rhif.40 Stryd Fawr	Gradd II
Rhif.41 Stryd Fawr	Gradd II
Rhif.4 Stryt yr Eglwys	Gradd II
2 Chest Tombs i Orllewin Eglwys San Silyn	Gradd II
2 Chest Tombs wrth ymyl Ffin Orllewinol Mynwent San Silyn	Gradd II
Adeilad Marchnad Cyffredinol, Rhif.23 Stryt Henblas	Gradd II
Adeilad Marchnad Cyffredinol,Rhif .25 Stryt Henblas	Gradd II

Adeilad Marchnad Cyffredinol,Rhif .27 Stryt Henblas	Grade II
Adeilad Marchnad Cyffredinol,Rhif.29 Stryt Henblas	Grade II
Adeilad Marchnad Cyffredinol,Rhif.29a Stryt Henblas	Grade II
Adeilad Marchnad Cyffredinol, Toiledau Cyhoeddus, Stryt Henblas	Grade II
Adeilad Marchnad Cyffredinol, Stryt Henblas	Grade II
Rhif.9 Stryd Fawr	Grade II
Rhif.10 Stryd Fawr	Grade II
Rhif.11 Stryd Fawr	Grade II
Rhif.40 Stryt Henblas, Wrecsam	Grade II
Rhif 1-3 Stryt y Syfwr	Grade II
Tafarndy'r Feathers a rhif.62, Stryt Caer	Grade II
Rhif 48-49, Tafarndy Talbot, Stryt yr Hôb	Grade II

ATODIAD 5: GEIRFA PENSAERNÏOL

Balwstrad	*Piler neu ffurf llenwi ar gyfer canllaw neu gopin*
Baróc	*Arddull pensaernïaeth yn gyffredinol yn y 17eg ganrif yn cynnwys nodweddion mewn ffurf gwastraff ac addurniad manwl*
Llain Bwrdeisiwr	*Darn o dir hir, cul yn nodweddiadol yn cynnwys tŷ ar y stryd gydag adeiladau allanol a gardd yn y cefn, yn gyffredin mewn trefi Canoloesol.*
Ffenestr Adeiniog	*Ffenestr gyda cholfach ar yr ochr*
Cerrig Copa	*Cwrs uchaf wal, rhagfur neu simnai*
Corbelu	*Cwrs o frics neu waith maen yn gorhongian yn uniongyrchol uwchlaw.*
Cornis	*Darn addurnol sy'n ffurfio ymyl uchaf adeilad neu biler ac ati.*
Ffenestri Dormer	*Ffenestr mewn to ar oleddf gyda'i tho goleddf neu ar ongl ei hun.*
Goruwchadail	*Mewn pensaernïaeth glasurol, rhan uchaf o wal neu lawr a gefnogir ar golofnau*
Ffasâd	*Blaen neu prif wyneb adeilad*
Ffenestri	*Trefniant ffenestri o fewn adeilad*
Terfyniad Crib	*Addurn wedi'i osod ar ben nodwedd pensaernïol*
Sioraidd	*Yn dyddio neu'n nodweddiadol o'r cyfnod rhwng 1714-1820*
Adfywiad Gothig	*Adfywiad Fictoraidd rhamantaidd o gymeriad pensaernïaeth canoloesol drwy ddefnyddio bwya pigfain*
Jacobeaidd	*Yn dyddio neu'n nodweddiadol o'r cyfnod rhwng 1603-89*
Canoloesol	*Yn dyddio neu'n nodweddiadol o'r Oesoedd Canol (1042-1485)*
Mwliwn	*Bar fertigol yn gwahanu ffenestr*
Plastro	*Math o rendro addurniadol sy'n gallu dangos amrywiaeth o batrymau*
Pediment	*Talcen tŷ trionglog fel arfer ar linell to neu dros ddrws*
Rendr	*Plastro wyneb gyda phlastr, stwco neu orffeniad arall*
Ffenestri Codi	*Ffenestr sy'n symud ar rigolau, naill ai gydag un ffrâm wedi'i gosod (hongiad sengl) neu'r ddwy yn symud (hongiad dwbl)*
Stwco	*Rendrad llyfn*
Terracotta	*Clai browngoch di-sglein*
Croeslath	*Bar llorweddol sy'n rhannu ffenestr*

Cynhenid	*Term i ddisgrifio mathau o adeilad lleol rhanbarthol yn defnyddio deunydd lleol heb honiadau pensaerniol crand*
Fictoraidd	*Yn dyddio neu'n nodweddiadol o'r cyfnod rhwng 1837-1901*
Plethwaith a chlai	*Fframwaith polion wedi eu plethu gyda changhennau neu gyrs a'u plastro gyda chlai*

ATODIAD 6: CYFEIRIADAU

Adeiladau Cymru: Clwyd (Sir Ddinbych a Sir y Fflint) Edward Hubbard
A History of the Parish Church of Wrexham, by A.N. Palmer 1886 (Ailargraffwyd 1984)
The Encyclopaedia of Wrexham: W. Alister Williams
The Parish Church of St Giles, Wrexham by W. Alister Williams 2000